

**LISTEN  
ENGAGE  
REPRESENT**



## SWYDD DDISGRIFIAD ATHLETAU CYMRU

<b>Teitl y Swydd:</b>	Swyddog Cyfranogiad (Dros gyfnod mamolaeth)
<b>Yn atebol i:</b>	Pennaeth Datblygu a Chyfranogiad
<b>Lleoliad:</b>	Cenedlaethol (lleoliad hyblyg) a'r brif swyddfa ar Gampws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd
<b>Cyfrifoldebau</b>	Datblygu Cyfranogiad

### **Pwrpas Cyffredinol y rôl:**

Bod yn gyfrifol am raglen rhedeg cymdeithasol Rhedeg Cymru - sicrhau bod ei hamcanion yn cyd-fynd â gweledigaeth a strategaethau Athletau Cymru, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru.

### **Cyfrifoldebau Allweddol:**

- Cynorthwyo'r prif Swyddogion Cyfranogi gyda'r rhaglenni gwaith cyfredol
- Cefnogi grwpiau rhedeg ledled Cymru (gan ganolbwyntio ar Dde a Gorllewin Cymru), trwy rannu arfer gorau a hwyluso eu datblygiad parhaus
- Cynorthwyo i gyflwyno cynhadledd flynyddol Rhedeg Cymru
- Ar y cyd â'r Rheolwr Datblygu Hyfforddwyr, sicrhau bod digon o gyfleoedd i Arweinwyr Rhedeg gael cyfleoedd datblygu
- Ar y cyd â'r Rheolwr Datblygu Hyfforddwyr, sicrhau bod digon o gyrsiau cymhwyster Arweinydd Rhedeg ar gael i ateb y galw
- Helpu i greu plattform mewnwelediad sy'n ymwneud â metrigau iechyd a gweithgaredd corfforol
- Gweithio gyda Thîm Cyfathrebu Athletau Cymru i hyrwyddo Rhedeg Cymru/Clwb Rhedeg Cymru a helpu i argymhell buddion rhedeg
- Gweithio gyda Thîm Cyfathrebu Athletau Cymru i fonitro gweithgareddau allweddol ar y cyfryngau cymdeithasol a datblygu presenoldeb cryf ar-lein / ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gweithgareddau allweddol
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid allweddol e.e. Chwaraeon Cymru, Awdurdodau Lleol

# LISTEN ENGAGE REPRESENT



**WELSH ATHLETICS**  
ATHLETAU CYMRU

- Rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pennaeth Datblygu a Chyfranogiad ar risg a heriau sy'n dod i'r amlwg
- Lle bo'n briodol, cysylltu â threfnwyr rasys a chystadlaethau i sicrhau mwy o gyfleoedd i gymryd rhan ledled Cymru
- Gweithio gyda'r gymuned redeg i adeiladu a datblygu ras y Gymuned ar Garlam ymhellach
- Cynnal gwerthoedd sefydliadol Athletau Cymru a chyfrannu at waith a lles y tîm staff
- Gweithio i gefnogi'r gwaith o ffurfio grwpiau rhedeg newydd ledled Cymru, gan ysgogi cyfranogiad fel bod pawb yn cael cyfleoedd i gymryd rhan.
- Helpu i greu rhwydwaith o gyfleoedd rhedeg i fenywod ledled Cymru
- Gweithio gydag adran cystadlaethau Athletau Cymru i helpu i gefnogi a chyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau rhedeg penodol
- Cefnogi'r broses o gyflwyno Her Milltir Ddyddiol yn genedlaethol mewn ysgolion cynradd ledled Cymru.

<b>CYFATHREBU</b>	Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig. Gallu ffurfio a datblygu cysylltiadau gyda phartneriaid allweddol. Ennill consesiynau heb niweidio cysylltiadau.
<b>YMWYBYDDIAETH SEFYDLIADOL</b>	Bod ag ymwybyddiaeth o weledigaeth strategol gyffredinol y sefydliad a chadw agwedd wrthrychol tuag at y gwaith dan sylw ar yr un pryd. Agwedd hyblyg mewn amodau newidiol.
<b>BRWDFRYDEDD AC EGNU</b>	Ymrwmo i ddatblygiad athletau a bod ag ymagwedd hyblyg at waith (sylwer: mae posibilrwydd y bydd y swydd hon yn golygu gweithio oriau anghymdeithasol). Parod i fynd i'r afael â heriau newydd a'u mwynhau. Hunan-gymhellol a gallu gweithio ar eich menter eich hun
<b>GWAITH TÎM</b>	Gallu cyfrannu'n gadarnhaol at dîm staff ehangach a datblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol sy'n meithrin cynhyrchedd.
<b>CYNLLUNIO A GWNEUD PENDERFYNIADAU</b>	Sgiliau trefnusrwydd a chynllunio amser rhagorol. Gallu blaenoriaethu llwyth gwaith. Trylwyr a rhesymegol yn eich dull o wneud penderfyniadau.
<b>UNIONDEB</b>	Gweithredu'n deg ac yn gyfiawn, yn foesegol ac yn onest. Trin eraill â pharch. Diogelu gwybodaeth gyfrinachol. Dibynadwy. Cadw at bolisiau a dangos teyrngarwch i'r sefydliad.

<b>CANOLBWYNTIO AR Y CWSMER</b>	Canolbwyntio'n ddi-ildio ar y cwsmeriaid a bod yn ymwybodol o'u hanghenion a'u disgwyliadau. Datblygu a chynnal cysylltiadau rhagorol gyda phartneriaid allweddol.
<b>PROFIAD A SGILIAU</b>	Sgiliau trefnusrwydd ardderchog a'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun. Gallu gweithio'n agos gyda chydweithwyr a phartneriaid allanol i sicrhau canlyniadau. Gallu cyfrannu at y tîm datblygu yn wreiddiol ac yn hyderus ac awgrymu ffyrdd newydd a mwy craff o weithio. Byddai profiad o weithio ym maes Datblygu Chwaraeon yn fanteisiol.
<b>GOFYNION PENODOL</b>	Parodrwydd i weithio oriau afreolaidd ar adegau, gan gynnwys rhywfaint o waith dros y penwythnos. Dangos dealltwriaeth lawn o fentrau athletau a rhedeg allweddol a swyddogaeth corff llywodraethu chwaraeon
<b>SGILIAU TG</b>	Yn hyddysg mewn cyfrifiadura o ran defnyddio a llunio adroddiadau o gronfeydd data, chwilio a gwe-lywio'r rhyngwrdd a gallu defnyddio meddalwedd graidd Microsoft Office yn fedrus.

### BUDDION CYFLOGAETH

<b>TEITL SWYDD</b>	Swyddog Cyfranogiad
<b>CYFNOD</b>	Contract tymor sefydlog 15 mis
<b>ARDALOEDD</b>	<b>Cymru gyfan</b>
<b>CYFLOG</b>	£ 23,000 yn ogystal â chyfraniad pensiwn
<b>GWYLIAU BLYNYDDOL A THÂL</b>	25 diwrnod (pro rata) yn ogystal â Gwyliau Banc statudol. Ceir gwneud cais i gario hyd at 5 diwrnod o wyliau ymlaen i'r flwyddyn ganlynol.
<b>ORIAU</b>	Hyd at 30 awr yr wythnos
<b>BUDDION ERAILL</b>	Cyfraniad pensiwn Cyfleoedd hyfforddi a datblygu personol parhaus.
<b>CYFNOD RHYBUDD</b>	Mae angen 1 mis o rybudd yn ystod cyfnod y contract hwn